

Frequently Asked Questions – POP assignment.

We know that this is your first assignment, and that for many it is a return to academic writing. We try to give you as much support as is appropriate – but if you have any questions you may well find the answer here.

Writing the first 500 words is often the hardest part – so just get started and see what happens! We will look forward to the finished result – and do not be afraid to be creative!

I don't know where to start! What shall I do first?

Look at the module handbook, check your notes and do not rely on social media – this is not always the most accurate source of information! Address the assessment criteria, and use the guidance to structure your response.

Do I have to write about something that happened on PPE, or can I use my prior experience?

Use PPE – because you need to have something that will allow reflection on the incident/ event, and the observation strategy that you used. It needs to be detailed enough to inform your writing – and you need evidence – what you did before September will just be vague and hazy memories by now!

Must I write in the third person.

No – for this assignment it is up to you to choose the style you write in. Because this is about personal reflection most students write in the first person. However – you must still support your writing with correctly referenced literature.

Have some groups had more information than others?

No – all groups have received the same guidance. If individuals raise a question in a session the tutors will try to answer it, but all groups receive key information at the same time. Key information is also always put onto moodle in English and Welsh at the same time.

I wanted to use a reference we had in a lecture, but it was in the Learning and Teaching module. I suppose I can't use it now?

Of course this can be used – modules overlap and interlink – and they have been designed to do so. Just like teaching and learning! You cannot submit the same work twice, but you can use ideas, references and material from other modules to support your demonstration of understanding in this module.

How many theories or theorists must I mention?

There is no rule about this– it depends on your observation and the ideas you have for your environment. The theorists/ theories must be relevant to your observation. When justifying your learning environment you may refer to several.

I am not very creative so I'm not sure my poster will be very good – any tips?

Use the twilight visits and PPE observation sessions very carefully to gain ideas. You can use these – and (appropriately permissioned) photos that you take to enhance your submission. Read widely and don't be afraid to have a look at sites like 'Pinterest ' for inspiration.

How many references must I cite?

There is no rule about this either – just make sure you reference correctly – and anything less than 8 is probably not enough – do not rely too heavily on just one or two. Make sure some of your references are specific to the Welsh curriculum/ context.

My car/ computer/ dog is broken. Can I have an extra day?

No – sorry – the programme team cannot grant extensions and issues such as IT failure will not be considered by the Extenuating Circumstances panel. Back everything up and submit in time – and keep your work away from the dog/ toddler etc!

Should I read books, websites or peer reviewed journals?

You should read a wide selection of relevant material – which contributes to, supports and enhances your discussion. Generally books and peer-reviewed journals are more reliable than websites - which may not be monitored for accuracy.

When I write up the poster, where do I put the words?

Look at the module handbook – section 3 is where you justify your learning environment referring to your experiences and reading. On the poster, you should convey information clearly – and generally posters are not too text heavy. The poster is supplemented by the justification – and the justification is part of the main body of the assignment.

Can I use pictures and diagrams in my essay?

Yes please- we enjoy seeing creatively, professionally presented work - as long as the pictures/charts etc are relevant, labeled and referenced where appropriate.

I can't fit a description of all learning areas into Section 3 – help!

Section 3 is not a description – it is an evaluation/ justification and so you may choose to talk about certain key areas rather than everything. If so, explain why and the marker will be clear about your intentions.

Turnitin isn't working – what should I do?

Try to submit well before the deadline – give yourself plenty of time. If you get an error message try again, and raise an IT Helpdesk ticket immediately – they will be able to track genuine attempts. If you cannot submit within 20 minutes of the deadline email your submission to the module lead (– who can only accept it if there is evidence that your attempts via Turnitin were unsuccessful).

Do I put my name on my assignment?

No – your p-number and group will suffice.

Can I send you my work to check?

No sorry – this is not part of our role – although we will offer the chance to attend a tutorial where we can discuss the assignment with you.

When I write up the lesson, can I use children's names?

- 1- You do not 'write up the lesson' – you select a small episode from within it to focus on.
- 2- No – you do not name school/ child or peers. You can give them pseudonyms (if you explain this) or label 'Child A' etc.

I'm going to be 1000 words over the limit - that's ok isn't it?

No – sorry – your work can be a maximum of +/-10% of the word count. After that we are not required to mark what you have written so you are unlikely to get as high marks. Being concise is an academic skill. You may use the appendix for additional material.

What's the appendix for? Is it part of the word count?

An appendix is an optional but recommended part of your assignment. The appendix serves to store material that is relevant but not essential to your discussion eg raw data, lesson plans, detailed observations, full ARC/Brookfield reflections etc. According to www.essay.uk.com/guides/essay/how-to-write-an-appendix.php (accessed 28.9.16) the written appendix is like the appendix in our bodies – without it your essay will still meet all of the criteria and function perfectly! We look at, but do not mark the appendix, it is not part of the word count.

I'd like to include a park/farm/space rocket/ jungle in my learning environment – am I allowed?

You can create anything – as long as you justify it appropriately. There is no budget – and as long as your ideas are pedagogically sound we will enjoy reading about them. Most students find it useful to identify a year group and theme around which to plan – just tell us what they are at the start of Section 3!

My friend said that we had to link to behaviourism – is that right?

Since your friend is not the module lead do not believe everything they say about the assignment! You do need to link to theory – but the link needs to be appropriate and you may not be looking at a behavioural issue.

Have I got to use the videoed session to write up.

No – but – there may be advantages to this as you will be able to review and reflect on the happenings in more depth, and you will be able to return to them several times. Using video is an appropriate observational tool with advantages and limitations that you can discuss. Because you discuss the video with peers and mentors it may also give you greater insight to write about.

I did a really good assignment about Piaget last year. It isn't plagiarising if I use a bit of that is it?

Yes. You can plagiarise yourself as well as others! Any text in your assignment you do not write, or which has been previously submitted to an online repository can be identified. Reference carefully.

Can I ask you questions about the assignment via email?

There is a limit to how many emails we can answer! Also, remember the expectations re: response times. You may prefer to get your Group Reps to summarise any queries and send them on the group's behalf once rather than run the risk of being one of 160 queries! Please remember that there will be opportunities in the next few weeks to ask questions/ have further guidance in POP sessions. Sometimes it is better to just make a start!

I think I have failed. What happens next?

You will receive your preliminary results after 4 working weeks. In the unfortunate (and for POP, unusual) event of failing, you will have advice from the programme team about the next steps. In most circumstances, after going through the university procedures relating to Examination Boards, a resit attempt is allowed. But – follow the guidance carefully and you should not find yourself in this position – we want you to succeed!

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml – Yr Aseiniad Egwyddorion Addysgeg (EA).

Gwyddom mai hwn yw eich aseiniad cyntaf, ac i lawer ohonoch, dyma ddychwelyd at ysgrifennu academiaidd. Rydym yn ceisio rhoi cymaint o gefnogaeth ag sy'n briodol i chi - ond os oes gennych gwestiynau, mae'n bosib iawn y gwnewch ddod o hyd i'r ateb yn y fan hon.

Yn aml, ysgrifennu'r 500 o eiriau cyntaf yw'r rhan fwyaf anodd – felly dechreuwch, a chawn weld beth sy'n digwydd! Edrychwn ymlaen at weld y canlyniad terfynol – a pheidiwch ag ofni bod yn greadigol!

Nid wyf yn gwybod lle y dylwn ddechrau! Beth y dylwn ei wneud gyntaf?

Edrychwch ar y llawlyfr modwl, gwiriwch eich nodiadau a pheidiwch â dibynnu ar gyfryngau cymdeithasol – nid ydynt bob amser yn ffynhonnell o'r wybodaeth fwyaf cywir! Ewch i'r afael â'r meini prawf asesu, a defnyddiwch y cyfarwyddyd i strwythuro eich ymateb.

A oes rhaid i mi ysgrifennu am rywbeth a ddigwyddodd pan oeddwn ar PAP, neu a allaf ddefnyddio fy mhrofiad blaenorol?

Defnyddiwch PAP – oherwydd bydd angen arnoch ysgrifennu am rywbeth a fydd yn eich galluogi i adfyfrio ar y digwyddiad a'r strategaeth arsyllu y gwnaethoch eu defnyddio. Rhaid iddo gynnwys digon o fanylion i hysbysu eich ysgrifennu – a bydd angen tystiolaeth arnoch – bydd yr hyn a wnaethoch cyn mis Medi yn atgofion amhendiant a niwlog erbyn hyn!

A oes rhaid i mi ysgrifennu yn y trydydd person?

Nac oes – eich dewis chi yw arddull eich ysgrifennu. Am fod hyn yn ymwneud ag adfyfrio personol, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ysgrifennu gan ddefnyddio'r person cyntaf. Er hynny, bydd rhaid i chi gefnogi eich ysgrifennu gan ddefnyddio llenyddiaeth sydd wedi'i chyfeirnodu yn gywir.

A oes rhai grwpiau wedi derbyn mwy o wybodaeth nag eraill?

Nac oes – mae pob grŵp wedi derbyn yr un cyfarwyddyd. Pe bai unigolyn yn codi cwestiwn mewn sesiwn, yna, gwnaiff y tiwtoriaid geisio ei ateb, ond mae pob grŵp yn derbyn yr un wybodaeth allweddol ac ar yr un pryd. Caiff gwybodaeth allweddol yn y Gymraeg a'r Saesneg hefyd ei rhoi ar yr un pryd ar Moodle.

Roeddwn am ddefnyddio cyfeiriad a roddwyd i ni mewn darlith ond roedd hwnnw yn y modwl

Dysgu ac Addysgu ac felly, tybiaf na allaf ei ddefnyddio yn awr?

Wrth gwrs gallwch ei ddefnyddio. Mae modylau yn gorgyffwrdd ac yn cydgysylltu – maent wedi cael eu dylunio i wneud hynny. Bron â bod fel addysgu a dysgu! Ni alwch gyflwyno'r un gwaith dwywaith, ond gallwch ddefnyddio'r syniadau, cyfeiriadau a deunydd a geir yn y modylau eraill i gefnogi a dangos eich dealltwriaeth o'r modwl hwn.

Faint o ddamcaniaethau a damcaniaethwyr y dylwn sôn amdanynt?

Nid oes rheol am hyn – mae'n dibynnu ar eich arsyllu a'r syniadau sydd gennych am eich amgylchedd. Rhaid i'r damcaniaethau a damcaniaethwyr fod yn berthnasol i'ch arsyllu. Wrth gyfiawnhau eich amgylchedd dysgu, gallech gyfeirio at sawl un.

Nid wyf yn greadigol iawn ac felly, nid wyf yn siŵr bydd fy mhoster yn dda iawn. A oes gennych unrhyw syniadau?

Defnyddiwch ymweliadau liw nos a sesiynau arsyllu PAP yn ofalus iawn i gael syniadau. Gallwch ddefnyddio'r rhain ynghyd â'r ffotograffau yr ydych yn eu tynnu (gyda'r caniatâd priodol) ar gyfer cyfoethogi'ch cyflwyniad. Darllenwch yn eang a pheidiwch ag ofni edrych ar safleoedd megis 'Pinterest' am ysbrydoliaeth.

Faint o gyfeiriadau y bydd rhaid i mi eu dyfynnu?

Nid oes rheolau am hyn chwaith – ond sicrhewch eich bod yn cyfeirnodu yn gywir – ac mae'n annhebygol bod llai nag 8 yn ddigon – felly peidiwch â dibynnu yn ormodol ar un neu ddau yn unig. Sicrhewch fod rhai o'ch cyfeiriadau yn ymwneud yn benodol â'r cwricwlwm/ cyd-destun Cymreig.

Mae fy nghar /cyfrifiadur/ ci wedi torri. A allaf gael un diwrnod ychwanegol?

Na allwch- rydym yn flin – ni all y tîm rhaglen ganiatáu estyniadau a ni chaiff pethau megis methiant TGCh eu hystyried chwaith gan y panel Amgylchiadau Esgusodol. Arbedwch a chadwch bopeth, a chyflwynwch mewn da bryd – gan gadw'r ci, y plentyn bach ayyb yn ddigon pell o'ch gwaith!

A ddylwn ddarllen llyfrau, gwefannau neu gyfnodolion a adolygir gan gydweithwyr?

Dylech ddarllen detholiad eang o ddeunydd perthnasol - sy'n cyfrannu at ac yn cyfoethogi eich trafodaeth. Ar y cyfan, mae llyfrau a chyfnodolion a adolygir gan gydweithwyr yn fwy dibynadwy na gwefannau – oherwydd gallai fod nad yw'r gwefannau yn cael eu monitro am gywirdeb.

Pan fyddaf yn ysgrifennu'r poster, ble y dylwn roi'r geiriau?

Edrychwch ar y llawlyfr modwl – rhan 3 yw'r man lle yr ydych yn cyfiawnhau eich amgylchedd dysgu gan gyfeirio at eich profiadau a darllen. Dylech gyfleu gwybodaeth yn glir ar y poster - ac fel arfer, nid yw posteri yn rhy drwm o ran geiriau. Mae'r cyfiawnhad yn atodol i'r poster ac yn rhan o brif gorff yr aseiniad.

A allaf ddefnyddio lluniau a diagramau yn fy nhraethawd?

Gallwch plis – rydym yn mwynhau gweld gwaith wedi'i gyflwyno yn greadigol ac yn broffesiynol – dim ond bod y lluniau / siartiau ayyb yn berthnasol, ac wedi'u labelu a'u cyfeirnoddi lle y bo'n briodol.

Ni allaf ffitio disgrifiad pob maes dysgu i mewn i Ran 3 – help!

Nid disgrifiad yw Rhan 3 – ond gwerthusiad / cyfiawnhad ac felly gallwch ddewis siarad am feysydd allweddol penodol yn hytrach nag am bopeth. Os ydych yn gwneud hynny, esboniwch pam er mwyn bod y marciwr yn deall eich bwriadau yn glir.

Nid yw Turnitin yn gweithio – beth y dylwn ei wneud?

Ceisiwch gyflwyno ymhell cyn y dyddiad cau – rhowch ddigon o amser i'ch hun. Os cewch neges gwall, rhowch gynnig arall arni gan godi tocyn Desg Gymorth TG ar unwaith – byddant yn gallu chwilio am a gwirio eich cynigion dilys. Os na alwch gyflwyno o fewn 20 munud o'r terfyn amser, yna anfonwch eich cyflwyniad at yr arweinydd modwl (- a fydd yn gallu ei dderbyn dim ond os oes tystiolaeth i ddangos nad oedd eich cynigion gan ddefnyddio Turnitin yn llwyddiannus).

A ddylwn roi fy enw ar fy aseiniad?

Na ddylech – bydd eich rhif-p a'ch grŵp yn ddigon.

A allaf anfon fy ngwaith atoch i'w wirio?

Na allwch – nid yw hyn yn rhan o'n rôl - er hynny, gwnawn gynnig cyfle i chi fynychu tiwtorial lle y gallwn drafod yr aseiniad gyda chi.

Pan fyddaf yn ysgrifennu am y wers, a allaf ddefnyddio enwau'r plant?

- 3- Ni ddylech ysgrifennu am y wers – dylech ddewis episod bach ohoni a chanolbwyntio arno.
- 4- Na allwch – ni ddylech ddefnyddio enw'r ysgol / nac enwau'r plant na chydweithwyr chwaith. Gallech roi ffugenwau iddynt (dim ond eich bod yn esbonio hyn) neu eu labelu yn 'Plentyn A' ayyb.

Rwy wedi ysgrifennu 1000 o eiriau yn ormodol o gymharu â'r terfyn geiriau. Mae hynny'n iawn, yn tydi?

Nac ydy – rydym yn flin – rhaid bod uchafswm eich geiriau yn cydymffurfio â +/-10% nifer y geiriau gofynnol. Ar ôl hynny, nid yw hi'n ofynnol arnom i farcio'r hyn yr ydych wedi'i ysgrifennu ac felly, na fyddwch yn debygol o ennill marciau cystal. Mae bod yn gryno yn sgil academiaidd. Gallech ddefnyddio'r atodiad ar gyfer deunydd ychwanegol.

At beth y dylwn ddefnyddio'r atodiad? A gaiff yr atodiad ei gynnwys wrth gyfrif nifer y geiriau?

Mae'r atodiad yn rhan opsiynol ond hefyd yn rhan argymelledig o'ch aseiniad. Pwrpas yr atodiad yw cadw deunydd sy'n berthnasol ond nid yn hanfodol i'ch trafodaeth e.e. data crai, cynlluniau

gwers, arsylliadau manwl, BWA (ARC) cyflawn, myfyrdodau Brookfields ayyb. Yn ôl www.essay.uk.com/guides/essay/how-to-write-an-appendix.php (wedi'i gyrchu 28.9.16) mae'r atodiad ysgrifenedig fel y coluddyn crog sydd yn ein cyrff – hebddo, byddai eich traethawd yn dal i ddiwallu'r holl feini prawf a gweithio'n berffaith. Rydym yn edrych ar, ond nid ydym yn marcio'r atodiad, ac nid yw'n cyfrif tuag at y nifer geiriau.

Hoffem gynnwys parc/ fferm/ roced / jyngl yn fy amgylchedd dysgu. A allaf wneud hynny?
Gallwch greu unrhyw beth – dim ond eich bod yn ei gyfiawnhau'n briodol. Nid oes cyllideb ar gael – a dim ond bod eich syniadau wedi'u seilio ar addysgeg gadarn, gwnawn fwynhau darllen amdanynt. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn darganfod bod nodi grŵp blwyddyn a thema a chynllunio o'u cwmpas yn ddefnyddiol – ond cofiwch ddweud wrthym beth yw'r rhain ar ddechrau Rhan 3!

Dywedodd fy ffrind fod yn rhaid i ni wneud cysylltau ag ymddygiadaeth – A ydy hynny'n wir?
Am nad eich ffrind yw'r arweinydd modwl, peidiwch â chredu popeth y mae pobl yn ei ddweud wrthyf am yr aseiniad! Mae angen i chi gysylltu â damcaniaeth – ond rhaid i'r cysylltau hynny fod yn rhai priodol, ac wrth gwrs, mae'n bosib na fyddwch yn ystyried mater ymddygiadol o gwbl.

A oes rhaid i mi ddefnyddio'r sesiwn a gafodd ei recordio ar fideo ar gyfer yr ysgrifennu?
Nac oes – ond gallai fod manteision i hyn oherwydd byddwch yn gallu adolygu ac adfyfrio ar y digwyddiadau yn fwy manwl a mynd yn ôl atynt nifer o weithiau. Mae defnyddio fideo yn arf aryllu priodol gyda manteision a chyfyngiadau y gallwch eu trafod. Oherwydd eich bod yn trafod y fideo gyda chyfoedion a mentoriaid, gallai hyn hefyd roi mwy o fewnbwn ar gyfer yr ysgrifennu.

Ysgrifennais aseiniad da iawn y llynedd ar Piaget. Ai llên-ladrad byddai pe bawn yn defnyddio ychydig ohono?

Ie. Mae'n bosib llên-ladrata oddi wrth eich hun yn ogystal ag oddi wrth eraill! Gellir adnabod unrhyw destun yn eich aseiniad nad ydych wedi'i ysgrifennu, neu sydd wedi cael ei gyflwyno'n flaenorol i gadwrf ar-lein. Cyfeirnodwch yn ofalus.

A allaf ofyn cwestiynau i chi am yr aseiniad gan ddefnyddio e-bost?

Mae terfyn ar y nifer o e-byst y gallwn eu hateb! Cofiwch hefyd y disgwyliadau ynglŷn ag amser i ymateb. Efallai byddai'n well gennych gael eich Cynrychiolwyr Grŵp i grynhoi unrhyw ymholiadau sydd gennych ac anfon y crynodeb hwnnw ar ran y grŵp cyfan yn hytrach na'r posibilrwydd bod eich ymholiad chi yn un o 160 o ymholiadau eraill! Cofiwch fe fydd cyfleoedd hefyd yn ystod yr ychydig o wythnosau nesaf i ofyn cwestiynau/ derbyn cyfarwyddyd pellach mewn sesiynau Egwyddorion Addysgeg (EA). Weithiau, mae'n well mynd amdani a'i ddechrau!

Rwy'n credu fy mod wedi methu. Beth sy'n digwydd nesaf?

Gwnewch dderbyn eich canlyniadau rhagarweiniol ar ôl 4 wythnos waith. Pe buasech yn y sefyllfa anffodus o fethu (nid yw methu EA yn rhywbeth arferol), yna, cewch gyngor gan y tîm rhaglen ynglŷn â'r camau nesaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, ar ôl dilyn gweithdrefnau Byrddau Arholi'r brifysgol, caniateir ailsefyll. Ond pe baech yn dilyn y cyfarwyddyd yn ofalus, yna, ni ddylech fod yn y sefyllfa hon – rydym am i chi lwyddo!